# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 11 Ebrill 2006

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Yn dilyn ei ateb i WAQ46424 a wnaiff y Prif Weinidog ddarparu dyddiad a manylion y drafodaeth a gafodd gyda Phrif Weinidog Prydain ynghylch cais posibl am arian cyfatebol gan y Trysorlys. (WAQ46634)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Yn dilyn ei ateb i WAQ46426, a wnaiff y Prif Weinidog nodi'r dyddiadau pan drafododd y mater o bwer niwclear yng Nghymru gyda'r Ysgrifennydd Gwladol ac a wnaiff ddarparu manylion y trafodaethau hynny. (WAQ46635)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon*

**Irene James (Islwyn):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i sicrhau y caiff dylanwad hanesyddol Cymru ddiwydiannol ei gydnabod yn iawn. (WAQ46615)

**Denise Idris Jones (Conwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfleusterau chwaraeon yn y Gogledd. (WAQ46647)

**Denise Idris Jones (Conwy):** Pa gamau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu cymryd i hyrwyddo llyfrau gan awduron Cymreig. (WAQ46648)

**Denise Idris Jones (Conwy):** Pa gamau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu cymryd i hyrwyddo gweithgareddau diwylliannol yng Nghonwy. (WAQ46649)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau*

**Irene James (Islwyn):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i ddenu swyddi sy'n ychwanegu gwerth sylweddol i Gymoedd y De. (WAQ46621)

**Irene James (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wella gwasanaethau rheilffyrdd yn Islwyn. (WAQ46623)

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygu lagwnau llanw, fel ffynhonnell ynni, ar arfordir Cymru. (WAQ46626)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa feini prawf y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu defnyddio wrth benderfynu ar gefnogi gwasanaethau bws neu goets yng Nghymru. (WAQ46628)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gymorth sydd ar gael i gwmnïau bach sy'n dymuno dechrau gwasanaeth bws neu goets yng Nghymru. (WAQ46629)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gymorth ariannol a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i wasanaeth y Traws Cambria. (WAQ46630)

**Denise Idris Jones (Conwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gamau Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella economi Conwy. (WAQ46631)

**Denise Idris Jones (Conwy):** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i hyrwyddo arloesi yn y Gogledd. (WAQ46632)

**Denise Idris Jones (Conwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wella cysylltiadau trafnidiaeth ledled y Gogledd. (WAQ46633)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau*

**Irene James (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth ddysgu gymunedol. (WAQ46614)

**Irene James (Islwyn):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i wella'r ddarpariaeth ddysgu ar gyfer pobl mewn cymunedau difreintiedig. (WAQ46616)

**Irene James (Islwyn):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod disgyblion yn Islwyn yn cael mwy o fynediad at addysg uwch. (WAQ46617)

**Irene James (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am weithredu'r Cyfnod Sylfaen. (WAQ46619)

**Irene James (Islwyn):** Pa gamau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu cymryd i wella Dysgu Seiliedig ar Waith yng Nghymru. (WAQ46624)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr Ymarferiad Asesu Ymchwil yng Nghymru. (WAQ46643)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A yw'n fwriad gan y Gweinidog i barhau â'r Ymarferiad Asesu Ymchwil yng Nghymru. (WAQ46644)

**Denise Idris Jones (Conwy):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi eu

cymryd i sicrhau bod gan ddisgyblion yng Nghymru ddewis addas o bynciau ar draws Cymru. (WAQ46645)

**Denise Idris Jones (Conwy):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi eu cymryd i gryfhau'r cysylltiadau rhwng ysgolion a phrifysgolion yng Nghymru. (WAQ46646)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Irene James (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wella gwasanaethau deintyddol yn Islwyn. (WAQ46618)

**Irene James (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynigion ar gyfer ysbyty newydd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. (WAQ46620)

**Irene James (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wella gwasanaethau gofal sylfaenol yn Islwyn. (WAQ46625)

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol cyllidebau Ymchwil a Datblygu'r GIG yng Nghymru, yn dilyn datganiad diweddar y Canghellor am gyllidebau Ymchwil a Datblygu'r DU. (WAQ46627)

**Carl Sargeant (Alyn a Glannau Dyfrdwy):** Pa gamau y bydd y Gweinidog yn eu cymryd er mwyn atal cleifion rhag gorfod teithio o Ogledd Cymru i Gaerdydd am sgan PET. (WAQ46636)

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i ddatblygu Cynllun Canser i Gymru. (WAQ46637)

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** Sut bydd y Gweinidog yn darparu arian yn y dyfodol ar gyfer Rhwydweithiau Canser yng Nghymru unwaith y daw arian Macmillan i ben. (WAQ46638)

**Denise Idris Jones (Conwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am amseroedd ymateb y gwasanaeth ambiwlans yn y Gogledd. (WAQ46639)

**Denise Idris Jones (Conwy):** Pa gamau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu cymryd i wella gwasanaethau iechyd deintyddol yng Nghonwy. (WAQ46640)

**Denise Idris Jones (Conwy):** Pa gamau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu cymryd i wella gwasanaethau ysbyty yn y Gogledd. (WAQ46641)

**Denise Idris Jones (Conwy):** Pa gamau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu cymryd i hyrwyddo byw'n iach yng Nghonwy. (WAQ46642)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio*

**Irene James (Islwyn):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi’u cymryd i fynd i’r afael â’r defnydd gwrthgymdeithasol ac anghyfreithlon o feiciau cwad a beiciau *motocross* yng Nghymru. (WAQ46622)